

Cyngor Cymuned Llanelian (260)

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Rhagfyr 9, 2014 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7.30yh.

Presennol: Dafydd Griffiths Hefina Williams T Elfyn Hughes
Helen Hughes Glenys Jones John Griffiths
David Gerrard

Ymddiheuriadau: Thomas D Jones Gordon Hayes Carol Whitaker
Cyng. Aled Morris Jones Cyng. Richard Jones

1 Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths a chroesawyd pawb i'r cyfarfod

2 Datgan Diddordeb

Dafydd Griffiths – Partneriaeth Llwyfo
Elfyn Hughes – Partneriaeth Llwyfo

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig Helen Hughes, Eilio Hefina Williams.

4 Materion yn Codi

4.1 Ffos ger Tŷ Canol -

Nodwyd bod y Cyngor Sir yn bwriadu ail-osod polion rhybuddio ger y ffos. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â gofyn am weithred fwy parhaol, o bosib llenwi ychydig ar y ffos.

CET

4.2 Cae Chwarae Lon Tyddyn Waen –

Cafwyd pris gan GL Jones i wneud y gwaith i'r offer chwarae yn dilyn adroddiad ROSPA. Fe gytunwyd y dylid adnewyddu'r siglenni ond y byddai see-saw newydd efallai yn opsiwn llai costus. Cytuno cynnwys see-saw newydd ar unrhyw geisiadau am grantiau, a gwneud trefniadau i atal defnydd yr offer presennol os oes angen.

CET

4.3 Giât Mynwent Eilian -

Cafwyd diweddariad gan y Clerc am y sefyllfa bresennol yn ymwneud a'r giât. Ar hyn o bryd mae gwaith ymchwil i hanes y giât bresennol cyn cyflwyno ffeithiau i CADW i gael ei ail-hystyried.

CET

4.4 Golau ger y Neuadd –

Mae manylion gwahanol gontractwyr wedi eu pasio ymlaen gan y Cyngor Sir ac mae'r Clerc wedi cysylltu â thrydanwr lleol. Nid oes prisiau am y gwaith wedi dod i law hyd yn hyn. Efallai bydd posib i Bwyllgor y Neuadd a'r Cyngor wneud cais grant ar y cyd i ariannu golau o'r fath.

CET

5 Cynllunio

5.1 Ceisiadau –

Roedd un cais i'w drafod sef Plot 1 Glanllyn, Cerrig Man (24C268F/VAR). Nid oedd newid i'r cais felly cytuno y byddai'r Cyngor yn aros a'u penderfyniad pan gafodd y cais ei gyflwyno'n wreiddiol.

CET

5.2 Penderfyniadau -

Nid oedd penderfyniadau i'w cyflwyno.

6 Materion Ariannol

6.1 Llithrfa -

Mae'r llithrfa wedi gwneud elw o £1473.58 i'r Cyngor eleni, ar ôl talu costau'r Clerc am weinyddu'r cynllun (£426.42 gan gynnwys costau postio). Fe gynigwyd bod y Cyngor yn cadw'r arian yma ar un ochr wrth osod cyllideb y flwyddyn ariannol nesaf fel bod arian wrth gefn i allu ceisio am grantiau ac ariannu gwahanol brosiectau.

CET

6.2 Taliadau – Cymeradwywyd y taliadau canlynol -

Costau Hydref – Rhagfyr £259.05
Cyflog Hydref - Rhagfyr (gan gynnwys y Llithrfa)
Viking Direct (adnoddau) £53.95

6.3 Ceisiadau am arian –

Cafwyd ceisiadau am arian gan Yr Urdd ac Undeb Amaethwyr Cymru. Fe gytunwyd peidio â'u cefnogi gan fod arian yn brin a gan nad oedd y llythyrau wedi eu hanelu at y Cyngor na'r Clerc yn bersonol ac mai llythyrau cyffredinol oeddent.

7 Partneriaeth Llwyfo

Cadeiriwyd yr eitem yma gan Hefina Williams. Cafwyd trafodaeth am gynnig Partneriaeth Llwyfo bod y cae chwarae yn cael ei drosglwyddo i berchnogaeth a chyfrifoldeb y Cyngor Cymuned. Cafwyd penderfyniad unfrydol y byddai'r Cyngor yn derbyn y cynnig ond bod angen holi am gyfrifoldeb y meinciau coffa, yswiriant ac arolygu, a chytundebau torri gwair a choed.

Gofynnwyd i Dafydd Griffiths ac Elfyn Hughes ddychwelyd i'r ystafell, a dywedwyd wrthynt benderfyniad y Cyngor. Bydd Elfyn Hughes yn cysylltu â chyfreithwyr y Bartneriaeth i ddechrau ar y gwaith trosglwyddo.

TEH

Bydd posib mabwysiadu polisi meinciau coffa Mynwent Llanelian ar gyfer Maes Llwyfo. Ni fydd newidiadau sylweddol i gostau yswiriant y Cyngor, ac mae costau archwilio'r un peth a chostau Cae Chwarae Lon Tyddyn Waen. Bydd angen cynnwys hyn yn y gyllideb flynyddol. Gwirfoddolwyr sydd wedi bod yn torri gwair yn y cae chwarae hyd yma. Bydd posib hysbysebu am gytundeb newydd am y gwaith.

Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau a'r Gofrestrfa Tir ynglŷn â Chae Chwarae Lon Tyddyn Waen.

CET

8 Polisiau'r Cyngor

8.1 Rheolau Ariannol –

Roedd yr aelodau yn hapus i fabwysiadu'r ddogfen oni bai y byddai newidiadau i'r rheolau sefydlog yn golygu newidiadau i'r rheolau ariannol. Penderfynu mabwysiadu'r ddwy ddogfen yn swyddogol yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

8.2 Rheolau Sefydlog –

Mae angen gwneud yn siŵr bod yr hen reolau wedi eu cynnwys o fewn y ddogfen. Rhaid hefyd cynnwys nad oes hawl i aelodau o'r cyhoedd siarad heb ganiatâd blaenorol. Cytuno diweddarau'r ddogfen ddrafft a'i gyflwyno i'r cyfarfod nesaf.

DG
CET

Roedd yr aelodau yn hoffi'r syniad o gael cyfarfod agored yn flynyddol er mwyn cael diweddariad gan wahanol grwpiau cymunedol am eu gweithgareddau drwy'r flwyddyn ddiwethaf.

8.3 Polisiau a Dogfennau Eraill -

Mae angen mabwysiadu nifer o ddogfennau swyddogol. Bydd yr is-bwyllgor yn gweithio nesaf ar ddatblygu polisi cydraddoldeb, polisi cwynion ac asesiad risg ariannol.

CET
DG
HFW
TEH

9 Gohebiaeth

9.1 National Coast Watch Institution - cafwyd poster gan y sefydliad yn datgan eu bod yn weithredol ar Bwynt Leinws ac yn nodi eu manylion cyswllt petai unrhyw un am fwy o wybodaeth.

9.2 Cyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru – bydd y cyfarfod yn cymryd lle yn Llangefni nos Iau Rhagfyr 11.

9.3 Cyngor Bro Llanfairpwll - cafwyd copi o ymateb y Cyngor i ddogfen ymgynghori Horizon (Wylfa Newydd) er gwybodaeth. Roedd y llythyr yn nodi nifer o bwyntiau yn ymwneud a pheilonau y dylid eu hystyried yn y dyfodol. Penderfynwyd peidio ag ymateb i lythyr Cyngor Llanfairpwll, ond yn hytrach ymateb i gam nesaf o ymgynghoriad y Grid Cenedlaethol a Horizon.

Teimlai'r aelodau y byddai gosod y ceblau tan ddaear yn fwy buddiol i'r Ynys a bod angen ystyried iechyd a diwydiant wrth drafod y fath gynlluniau.

10 Unrhyw Fater Arall

Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod.

11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 6/1/2015

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 8.30 o'r gloch.